LAMPETER TOWN COUNCIL **CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.**

COFNODION CYFARFOD MISOL 27ain O DACHWEDD 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Dirprwy-Faer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Ef oedd cadeirydd y rhan gyntaf y cyfarfod yn absenoldeb y Maer a oedd ynghlwm â gweithgareddau yn ymwneud â'r Ffair Nadolig yr Ysgol Uwchradd.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd – hanner olaf y cyfarfod);
Dirprwy-Faer Selwyn Walters (Is-gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter;
Margaret Davies-Evans; Greg Evans;
Lynda Mason-George; Kistiah Ramaya; Dorothy Williams.
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris;

2. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Gyng. Elsie Dafis; John Davies; Robert Phillips; Chris Thomas a'r Cyng. Sirol Ivor Williams am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. FFORWM AR GYFER Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Ardal Ddi-Alcohol ar gyfer Tref Llanbedr Pont Steffan

Mae'r cais am Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer y dref yn gyfangwbl yn anhebygol o ddod i fodolaeth gan nad yw'r dystiolaeth i gefnogi'r cais yn ddigonol. Roedd aelodau'n cydnabod y ffeithiau ystadegol y sefyllfa ond yn eu barn hwy roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac o feddwod yn enwedig yng nghyffiniau Sgwâr Harford, Stryd y Farchnad, yr Archfarchnad Somerfield a Pharc-yr-Orsedd yn broblem ddifrifol a pharhaol a oedd yn effeithio'n anffafriol ar ansawdd bywyd trigolion Llanbedr PS. Fel canlyniad, y mae'r cais diwygiedig rhwng yr Heddlu ac aelodau'r Cyngor Tref wedi ei gyflwyno i *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.* Mae'r cais diwygiedig yn cymryd lle y cais blaenorol ac yn apelio ar gyflwyniad AGA yn y lleoedd sydd wedi eu henwi uchod. Roedd ymateb Gadairyddes y *Bartneriaeth* yn nodi bod y mater wedi ei gynnwys yn Agenda cyfarfod cyflawn y *Bartneriaeth* o'r 5/11/2008. Ar ôl trafodaeth, yn ystod y cyfarfod hwn, cytunwyd y byddai'r Heddlu'n ymwneud ag asesiad o'r cais newydd yn unol â chanllawiau cytun. Caiff y mater ystyriaeth gan Gyfreithwyr yr Awdurdod Lleol, Yr Heddlu a'r *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.* Bydd y *Bartneriaeth* yn monitereiddio'r cynnydd parthed y cais ac yn hysbysu'r Cyngor Tref o'r penderfyniad terfynol.

4.1 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys: Cyfarfod Ymgynghori Cymunedol: Nos Iau 20fed o Dachwedd am 7pm: Siambr y Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron. Mynychodd y Maer y cyfarfod ble y trafodwyd y 3 blaenoraieth a gyflwynwyd gan y CT sef "Rhwyddineb mynd at yr Heddlu." "Ymddygiad Gwrthgymdeithasol" a "Heddlu'n amlwg ar y strydoedd" yn ogystal â'r "Ardal Gwahardd Alcohol" arfaethedig.

5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

5.1 Datgelodd y Cyng. Carter ddiddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth Gangen y Sgowtiaid Llanbedr PS.

6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD – 30/10/2008

Cytunwyd eu bod yn gywir.

7. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

7.1 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: mae'r Maer yn ymwneud â threfniadau ar gyfer trwsio'r hysbysfwrdd. Gwrthododd y Cyngor Sir ganiatâd i osod yr hysbysfwrdd ar wal y llyfrgell gan eu bod o'r farn na fyddai'r difrod wedi bod yn llai petai'r hysbysfwrdd ynghlwm wrth y wal. Ystyriwyd lleoedd addas eraill ar gyfer arddangos gwybodaeth.

7.2 Cymuned ar y Cyd: Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

7.3 Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

7.4 Cystadleuaeth Calor Pentref y Flwyddyn: datgelwyd bod Llanbedr PS wedi cipio'r *Tlws Pentref Calor Y Flwyddyn* ar gyfer Canol a Gorllewin Cymru. Bydd y Maer a'r Dirprwy-Faer yn mynychu'r Seremoni'r Gwobrwyo yn Neuadd y Gild, Llundain a drefnwyd ar gyfer Mawrth yr 2ail o Ragfyr.

7.5 Bin Ail-gylchu: boed i'r Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn caniatâd i leoli'r bin yn ardal Sgwâr Harford: yn disgwyl clywed oddi wrthynt parthed y mater.

7.6 Llogi'r Cae Bryn: Boed i'r CT gysylltu â'r perchennog presennol sef y Brifysgol Llanbedr PS, ym Ionawr 2008 i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i logi'r cae fel amwynder ar gyfer trigolion y dref. Dywedwyd, yr adeg hynny, bod y les ar ei hail flwyddyn allan o dair a byddai'n werth chweil i'r CT i gysylltu â hwy o fewn 12 mis pan fyddant mewn gwell sefyllfa i drafod cynlluniau dyfodol y cae. Cytunwyd i gysylltu â Choleg Llanbedr PS i ddatgan diddordeb i logi'r cae ar ôl i'r les ddirwyn i ben.

7.7 Tir Ym Maesyderi (Yr Hen Gae Chwarae yr Ysgol Gynradd): mae llythyr wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn gofyn a oes datblygiadau parthed cais y CT i logi'r/prynu'r cae: yn dal i ddisgwyl ateb swyddogol oddi wrthynt.

7.8 Trefi Taclus: llythyr oddi wrth Rachel Mills Cydlynydd Balchder Bro CSC sy'n gyfrifol am y cynllun "Trefi Taclus" sef bartneriaeth tair blynedd o hyd rhwng CSC a Chadw Cymru'n Daclus a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd grant o £104,000 y flwyddyn o Geredigion tra bo'r prosiect yn mynd rhagddo. Gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer prosiectau i wella ansawdd y cynefin lleol. Penderfynwyd ar y canlynol:

- **7.8.1** Binaiu Ail-gylchu ar gyfer y dref;
- **7.8.2** Cael gwared â'r graffiti di-olwg ee ar bont y rheilffyrdd;
- **7.8.3** Cymorth i logi/prynu yr hen gae chwarae'r hen ysgol a'i drawsnewid i faes chwarae a chynefin fioamrywiaeth;
- **7.8.4** Ffens a mynedfa newydd ar gyfer Parc-yr-Orsedd; &
- **7.8.5** Peintio Neuadd y Sgowtiaid: mae'n adeilad rhestredig.

7.9 Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post, Llanbedr PS: adroddodd y Clerc iddi atgofio'r Swyddfa'r Post o'r cais am seddau newydd.

7.10 Newid Enw Lle: i gysylltu r CSC i geisio eglurhâd ynglŷn â'r broses o newid enw lle . Ystyriwyd Gerddi Brenin George V. Byddai'r aelodau'n ymgynghori â'r cyhoedd i holi eu barn cyn newid enw lle.

7.11 Ymgynghoriad Parti Werdd Ceredigion ynglŷn â gwasanaethau bws yng Ngheredigion:gohebiaeth oddi wrth y Barti Werdd yn diolch i'r CT am eu hateb trylwyr a chynhwsfawr i'r Ymgynghoriad. Lluniwyd yr ymateb gan y Cyng. Rob Phillips.

7.12 Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol: bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflwyno "Cynllun Trwyddedu Tai Amifeddiannaeth Ychwanegol" drwy Geredigion ar Ebrill 1af 2009. Gwneir hyn yn dilyn y gymeradwyaeth gyffredinol a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007. Bu i'r cynllun trwyddedu gorfodol ddod i rym yng Nghymru ar Fehefin 30ain 2006 ar gyfer pob Tŷ Amifeddiannaeth mwy o faint. Bydd y cynllun trwyddedu ychwanegol yn cynnwys pob eiddo a ddiffinnir fel Tŷ Amifeddiannaeth o dan Deddf Tai 2004.

7.13 Arweiniad i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – Deddf Cymdogaeth Glan a'r Amgylchedd: Llywodraeth Cynulliad Cymru: dychwelwyd y ddogfen dan law'r Clerc.

7.14 Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub: Llywodraeth Cynulliad Cymru: dychwelwyd y ddogfen dan law'r Clerc.

7.15 Cŵn yn Baeddu ar Stadau Bryn-yr-Eglwys; Penbryn ac ar y Cwmins: atgofiwyd y Warden Cŵn CSC o'r broblem hon.

8. GOHEBIAETH

8.1 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru -Gweithdŷ 10/12/2008 – Coleg Y Drindod Caerfyrddin: Y Maer i fynychu'r Cyfarfod.

8.2 Dweud eich dweud ar gyflog a lwfansau Aelodau'r Cynulliad: Cynulliad Cenedlaethol: er gwybodaeth.

8.3 Cadw'n Gynnes yng Ngheredigion dros fisoedd y gaeaf: Cyngor Henoed Ceredigion: llythyr oddi wrth Lee Jones Rheolwraig Swyddfa a Phrosiect yn cynnig gwneud cyflwyniad I'r Cyngor Tref parthed y mater. Cytunwyd i'w gwahodd i gyfarfod dyfodol (bydd yn mynychu'r Cyfarfod Mis Ionawr)

8.4 Agenda ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Shopmobility Symudol Ceredigion 3/12/2008 Swyddfa'r Cyngor Sir, Aberaeron 3/12/2008: nodwyd er gwybodaeth.

8.5 Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2008-11: Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Ceredigion: er gwybodaeth.

8.6 Cynllun Gweithredu Lleihau Risg 2009-10: Canolbarth a Gorllewin Cymru: er gwybodaeth.

8.7 Torri Coeden Ffawydden i lawr: Heol A476, Peterwell, Llanbedr PS: cwympwyd y goeden gan GSC ar y 27/10/2008 oherwydd ei chyflwr trist ac am resymau iechyd a diogelwch.

8.8 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

9. MENTER LLAMBED

Dywedodd y Cyng. G.Evans bod y bag yn cael ei lansio'n fuan a'r *Wythnos Di-Fag*. Gobeithir codi ymwybyddaieth o'r Biniau Compost a'r cysyniad *Dim Gwastraff*.

10. CYNLLUNIO

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol oddi wrth GSC:

10.1 Newid cynllun ac adeiladu estyniad i'r garej presennol: 18 Stryd Fawr, Llanbedr PS. Rhif y cais: A080990: Ymgeisydd: Mr Nick Wright, Price Slash, 18 Stryd Fawr, Llanbedr PS. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.2 Trawsnewid siop Cludfwyd i ffurfio Tŷ Bwyta: 17 Stryd Fawr, Llanbedr PS: Rhif y Cais: A081054. Ymgeisydd Mr K Hoh, Cegin Canton, 17 Styd Fawr, Llanbedr PS. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.3 Uned Storio Newydd: 17 Stryd Fawr, Llanbedr PS: Rhif y Cais: A081055. Ymgeisydd Mr K Hoh, Cegin Canton, 17 Stryd Fawr, Llanbedr PS. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.4 Codi sied amaethyddol ar gyfer lloi: Fferm Castell: Heol Llanfair, Llanbedr PS. Rhif y Cais: A081060. Ymgeisydd: Mr Dorian Jenkins, Fferm Castell, Heol Llanfair, Llanbedr PS. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.5 Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa Aberaeron, 8/10/2008 ac Agenda y cyfarfod o'r 12/11/2008: er gwybodaeth**.**

11. CYLLID

11.1 Ceisiadau Ariannol:

11.1.1 Grwp Cyntaf Llanbedr PS y Sgowtiaid:derbyniwyd y fantolen arainnol. Cytunwyd i gyfrannu £500.

11.1.2 Timau Pêl Droed a Rugby Ieuaf Llanbedr PS
Gofynnwyd petai'n bosibl i'r Cyngor Tref gyfrannu'n ariannol tuag at llifolau dros-dro. Penderfynwyd ar £1,000.

11.2 Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth y Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion am y rhodd o £50.00 at *Ddisgo Golau Glas* a gynhaliwyd ar y 24ain o Hydref.

11.3 Cyflog y Clerc (Tachwedd) £497.00

11.4 Golau/Gwres/Storio: £20.00

11.5 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £91.36

11.6 Aros dros nos (Cystaleuaeth Pentref y Flwyddyn Calor): Maer a'r Dirprwy-Faer 1/2 Rhafgyr, Holiday Inn, Mayfair, Llundain £149.50 TAW £26.16 Cyfanswm: £175.66

11.7 Tocyn trên dwy-ffordd Caerfyrddin i Lundain – Maer a'r Dirprwy-Faer £132

11.8 Adleoli Bloc o Graig , Parc-yr-Orsed: £950; TAW £166.25 Cyfanswm: £1,116.25.

11.9 Llogi Neuadd y Dref: Cyfarfodydd y Cyngor Tref x3 £61,50; Llogi Neuadd Fictoria: Te *Ieuanc Mewn Ysbryd* X 4 £41.00

11.10 Penderfynwyd gofyn am gadarnhâd ysgrifenedig bod £50,000 o'r arain a fuddsoddwyd ym Manc Lloyds TSB a'r Banc Alliance & Leicester yn sicr rhag colledion petaent yn dioddef problemau ariannol yn ystod y dyfodol. Derbyniwyd sicrwydd ar lafar ganddynt ond roedd aelodau o'r farn mai derbyn sicrwydd ysgrifenedig oedd ddoethaf. Ar ôl derbyn yr wybodaeth penderfynwyd trosglwyddo £40,000 o'r A&L i Gymdeithas Adeiladu Abertawe. Boed i'r Clerc gysylltu â nifer o fanciau a Chymdiethas Adeiladu o fewn Llanbedr PS ond fe ddarganfuwyd mai'r Cyfrif Banc Adeiladu Abertawe oedd yn cynnig y llog uchaf. Mae cyfradd log yn disgyn ar gyfer y person sydd angen cynilo arian.

11.11 BDO Stoy Hayward LLP: Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2008. £400; TAW £70.00. Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei derbyn gan y Cyngor Tref a'r Adroddiad Materion yn Codi ei chyflwyno i'r pwyllgor.

11.11.1 Lefel Cronfeydd wrth gefn
Mae'r lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor yn ymddangos yn uchel. Dylai'r Cyngor barhau i leihau lefel eu cronfeydd wrth gefn nes cyrraedd lefel mwy priodol. Nid yw lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel arfer fwy na dwywaith lefel y presept (£90,000)

11.11.2 Gwarant Ffyddlondeb
Mae'r Cyngor wedi adolygu lefel sicrwydd y warrant ffyddlondeb ond mae'r lefel yn dal yn ymddangos yn annigonol yng ngoleuni'r

balansau yn y banc ar y 31 Mawrth 2008 a swm y praesept a dderbyniwyd ar ôl hynny ym mis Ebrill 2008. Dan Adran 114 Deddf Llywodraeth leol 1972 rhaid i gyngor lleol gymryd y camau diogelwch y mae'n eu hystyried yn ddigonol os digwydd i unrhyw un o'i swyddogion fod yn debygol o drafod ei arain. Argymhellir bod y swm yn ddigon i sicrhau'r uchafswm arain y mae'r Cyngor yn ei ddal ar unrhyw un cyfnod yn ystod y flwyddyn. Nid oes raid i gyngor gael Yswiriant Gwarant Ffyddlondeb os yw'n ystyried bod dim sicrwydd yn "ddigonol" ond rhaid cael sail wrthrychol dros ddod i gasglaid o'r fath. Gall cynghorau llai, felly, benderfynu fod cost yr yswiriant hwn yn anghymesur â'r risg dan sylw. Nodwyd yr wybodaeth.

Cafodd y Ffurflen Archwiliad Flynyddol a'r Hysbyseb yn nodi bod yr Archwiliad wedi ei gwblhau eu harddangos mewn lle cyhoeddus am 14 o ddyddiau.

11.12 Eirwyn Williams: Llwybrau Troed £999: Cyngor Sir Ceredigion (Incwm grant Llwybrau Cerdded £749.50 CSC)

11.13 Llogi Uchelseinydd: Dydd Sul y Cofio 9/11/2008 Mr Gwynne Davies £60.00

12. IS-BWYLLGORAU

12.1.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

12.1.1 Cynllun gwella tramwy CSC: penderfynwyd i wneud cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16.

12.1.2Parc-yr-Orsedd: cytunwyd ar Agoriad Swyddogol i'r Parc i gynnwys yr offer newydd cadw'n heini sydd wedi eu hariannu o'r *Gronfa Buchedd Actif*- i gysylltu â Chyngor Chwaraeon Cymru am fanylion pellach.

12.1.3 Mynedfa Newydd ar gyfer Parc-yr-orsedd: Derbyniwyd amcanbris o £4,100 (gan gynnwys TAW) gan y Cyngor Sir ar gyfer gosod set newydd o gerrig concrit a gât diogel i blant sy'n cau ar ben ei hun ar fynedfa maes chwarae Parc-yr-orsedd. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am y manylebau a holwyd amdanynt oddi wrth eu contractwr hwy ac i wneud cais am amcanbris oddi wrth gontractwyr eraill.

12.1.4 Grant Llwybrau Cymunedol CSC 2009-10: bydd rhaid cyflwyno'r cais erbyn y 5ed o Ionawr 2009.

12.2 CTCC

12.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Hydref CSC: bu yna 4 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â rhwystr i draffig, ymosodiad, burgleriaeth a lladrad a 2 gais am ddisgiau copi. Codwyd 3 o broblemau ar y camerau megis

12.2.1.1Colli llun ar ôl iddi dywyllu- atgyweiriwyd y broblem o fewn 72 awr;

12.2.1.2Yn methu symud camera: atgyweiriwyd o fewn 96 awr;

12.2.1.3Yn methu chwyddo(zoom) llun: atgyweiriwyd o fewn 24awr.

12.2.2 Ymweliad â'r Ystafell Rheoli

Bu'n bleser gan Mr Richard Griffiths a'r tîm CTCC i groesawi aelodau i'r Ystafell Rheoli ar Ddydd Llun yr 20fed o Hydref ac ar Nos Iau 23ain o Hydref, ble arsylwyd ar fedrau'r camerau a'r deunydd recordio.

12.2.3 Roedd y Gyng. M. Davies-Evans o'r farn bod problemau'n bodoli ar gamera Teras Fictoria- i glustnodi sylw pellach i'r mater.

12.3 GOLEUADAU STRYD

12.3.1Nid yw cloc y dref yn goleuo nac yn taro – i adrodd y nam at sylw'r CSC.

12.3.2 Mae golau stryd ger y CTCC Teras Fictoria yn ddiffygiol: i adrodd at sylw'r CSC.

12.3.2 Cyfarfod: Camau posibl i gwtogi ar gostau Goleuadau Stryd: CSC: 2/12/2008: Yng nghyfarfod o Bwyllgor Archwilio Priffyrdd, Eiddo a Gwaith o'r 5ed o Dachwedd 2008 cafodd aelodau'r Cabinet eu hargymell i newid hen oleuadau i ddull newydd o olau. Dylai hyn arwain at arbedion mewn costau cynnal a chadw a gwella effeithiolrwydd. Yn ogystal byddai diffodd goleuadau tu allan i ganol y dref rhwng canol nos a 5.00am yn arwain at ostyngiad yn y gost. Disgwylir manylion pellach oddi wrth y Cyng. Harris a Phillips a oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod o'r 2ail o Ragfyr.

12.4 YR IAITH GYMRAEG:

12.4.1 ***Pan yn clustnodi grantiau ar gyfer y dyfodol*** *bydd y CT angen datganiad byr oddi wrth yr ymgeisydd yn egluro sut mae ei fudiad yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Os oes polisi mewn lle, gallai hyn ddylanwadu'n ffafriol ar y cais.*
Mynegwyd bryder gan rai aelodau parthed y datganiad uchod, a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol o fis Hydref pan yn ymgymryd ag adolygiad o Bolisi yr Iaith Gymraeg y Cyngor Tref. Gresynwyd y gallai mudiadau nad oedd yn gallu'r Iaith Gymraeg gael eu camwahaniaethu pan yn gwneud cais am gymhorthdal oddi wrth y CT. Pwysleisiwyd y ffaith na fyddai grantiau'n cael eu clustnodi'n unig i fudiadau a oedd yn hybu'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau (er bod y CT yn gwerthfawrogi unrhyw gamau yn y cyfeiriad hwnnw). Mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r Cyngor Tref. Byddai gwybodaeth pellach ynglŷn â'r fath o weithgareddau posibl i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymorth i darpar fudiadau pan yn cyflwyno eu cais am gymorth ariannol.

12.4.2 Y dyfyniad ***Mae'r Clwb Ieuenctid,*** *sydd newydd ei agor yn Llambed, yn cael ei redeg gan weithwyr ieuenctid, sy'n methu siarad Cymraeg, ar hyn o bryd, ond mae cynrychiolwyr Cyngor Y Dref yn bwriadu codi'r mater gyda'r Cyngor Sir Ceredigion.* Dylai ei newid i
Mae'r Clwb Ieuenctid, *sydd newydd ei agor yn Llambed,*
yn cael ei redeg gan 3 o weithwyr ieuenctid, ***y mae un yn rhugl yn yr iaith Gymraeg a'r ddwy arall yn ddysgwyr*****.**

12.5 PALMANTAU

12.5.1 Mae'r slabiau ar balmantau'r Cwmins yn cael eu newid am slabiau llai siap sgwâr a fydd â'r gallu i barhau'n hwy na'r presennol. Ystyriwyd y bosibilrwydd o osod pyst ar y palmant sy'n rhedeg o'r Eglwys Fethodistiaid at Deras Fictoria, gan Gyngor Sir Ceredigion mewn ymgais i atal loriau rhag defnyddio'r palmant.

13. U.F.A.

13.1 Cytunwyd i gysylltu â BT i adrodd nam sef nad yw'n bosibl gwneud na derbyn galwadau ffôn o giosg y Cwmins.

13.2 Atgofiwyd aelodau o'r amser a'r dyddiad Parti-Te Blynyddol y Maer sef ar Ddydd Mercher 3ydd Rhagfyr am 2:00pm yn Neuadd Fictoria.

14. Dyddiadau y cyfarfodydd nesaf:

Nos lau 8fed o Ionawr am 7:00pm – Cyfarfod Cyllideb
Nos lau 29ain o Ionawr am 7:30pm – Cyfarfod Misol